**Gwobr Adran Mathemateg**
**Telerau ac Amodau**

1. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwneud cais i astudio'n llawn amser am radd mewn unrhyw bwnc israddedig o'r adran Mathemateg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ni thelir gwobrau i'r rhai sy'n trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 y cwrs.

2. Nid oes angen gwneud cais - bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn awtomatig. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod wedi ennill Ysgoloriaeth Mynediad y Brifysgol yn y pwnc perthnasol neu gradd A* yn eu harholiadau Mathemateg Safon Uwch.

3. Mae nifer y dyfarniadau sydd ar gael yn amrywio a bydd Panel Dyfarnu'r Adran yn penderfynnu ar y dyfarniadau. Mae penderfyniad y Panel Dyfarnu yn derfynol.

4. Bydd y taliadau'n para tra bydd myfyriwr yn dal y wobr, yn amodol ar fodloni'r rheoliadau (os bydd blwyddyn yn cael ei hail-wneud ni wneir taliadau, ac eithrio Bwrsariaeth Aberystwyth).

5. Caiff myfyrwyr gadw'r wobr os ydynt yn cael cyfartaledd o 70% neu uwch yn y modiwlau perthnasol bob blwyddyn.

6. Bydd cynnydd academaidd anfoddhaol, neu gynnydd anfoddhaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb reswm da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.

7. Bydd taliadau y gwobrau yn cael ei wneud mewn rhandaliadau cyfartal yn uniongyrchol i gyfrifon banc y derbynwyr bob blwyddyn y byddant yn parhau'n gymwys. Gwneir y taliad cyntaf yn mis Rhagfyr, a'r ail yn mis Mawrth.

8. Telir gwobrau tra bod myfyrwyr wedi'u cofrestru'n llawn amser ac yn talu ffioedd llawn. Ni wneir taliadau yn ystod blynyddoedd dramor, blynyddoedd mewn cyflogaeth, blynyddoedd rhyngosod ac ati.

9. Bydd Myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau/Gwobrau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.

10. Cyfrifoldeb y myfyrwyr unigol yw darparu manylion dilys y banc pan ofynnir iddynt amdanynt. Os nad ydynt yn rhoi'r manylion hynny erbyn y dyddiad penodedig, ni fydd yr arian yn cael ei dalu.

11. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).

12. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.

13. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng

Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

14. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

15. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r Ysgoloriaeth yn ôl.